*Mai 2025*

# O animeiddio i'r awyr agored:
# Darganfod 40 o Wyliau Ffilm Cymru

Oeddech chi'n gwybod bod Cymru'n gartref i 40 o wyliau o bob siâp a maint? Mae llawer o'r rhain yn ymroddedig i ffilm, neu mae ganddynt gynigion ffilm rheolaidd. P'un a ydych chi'n wneuthurwr ffilmiau newydd sy'n chwilio am le i lansio'ch ffilm fer nesaf, neu os ydych chi'n mynychwr brwd o'r sinema sy'n chwilio am y ffilmiau newydd gorau, mae ein gwyliau Cymreig are ich cyfer.

Yng Nghanolfan Ffilm Cymru, rydym yn gweithio gyda gwyliau ffilm, gan eu helpu i ddod â'r ffilmiau annibynnol a rhyngwladol gorau yn y DU i gymunedau Cymru drwy gydol y flwyddyn. Mae gwyliau yn chwarae rhan hanfodol yn y gadwyn ffilm. Maent yn arddangos talent newydd, yn aml yn eu helpu i sicrhau asiantau gwerthu a bargeinion dosbarthu - cyrraedd cynulleidfaoedd newydd gartref a ledled y byd. Maent hefyd yn adnabyddus am ddigwyddiadau arbennig, dewisiadau ffilm unigryw a beiddgar nad yw cynulleidfaoedd efallai yn eu gweld mewn mannau eraill a lle i'r diwydiant a'r cyhoedd ddod at ei gilydd.

Felly pa wyliau sy'n aros i gael eu darganfod ar garreg eich drws yng Nghymru? Wel, mae o leiaf 40 (rydyn ni'n gwybod amdanynt) ac nid yw hyn yn cynnwys y llawer mwy o ddigwyddiadau teithiol sy'n ymddangos mewn sinemâu yn ystod y flwyddyn a gwyliau celfyddydol ehangach sy'n sgrinio ffilmiau o bryd i'w gilydd. Mae 34 o'r rhain yn ddigwyddiadau Cymreig yn benodol ac mae 6 yn ddigwyddiadau yn y DU neu ryngwladol sy'n teithio i Gymru.

Mae gan lawer o'r gwyliau themâu unigryw (20 yr ydym yn eu cyfrif) fel Gŵyl Ffilm SeeMôr sy'n archwilio popeth sy'n ymddangos ar yr arfordir a'r môr yn Ynys Môn, Gŵyl Animeiddio Caerdydd a Gŵyl Animeiddio Japaneaidd Kotatsu, neu i'r rhai sy'n chwilio am wefr mae Gŵyl Arswyd Ryngwladol Abertoir - sydd ar fin dathlu ei 20fed flwyddyn yn 2025. Mae gwahanol wyliau yn cynnig cefnogaeth bwrpasol i dalent newydd fel Gŵyl Ffilm Bae Caerfyrddin, Gŵyl Ffilm Fach Caerdydd a Focus Wales. Ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc mae Wicked Wales a Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru i Blant. A gallwn ni barhau i'w rhestru! Ar gyfer y ffilmiau lleol a byd-eang newydd gorau mae Wales One World, am flas ar Affrica mae Gŵyl Ffilm Watch-Africa, Gŵyl Undod Hijinx yn dathlu artistiaid anabl, ag anableddau dysgu a/neu awtistig a'n gŵyl ffilm fwyaf yng Nghymru, Gwobr Iris Gŵyl Ffilm LGBTQ+ yn gartref i'r wobr ffilm fer fwyaf yn y byd. Rydyn ni wedi cael ein difetha am ddewis yn sicr.

Yn ogystal â lle gwych i ddarganfod ffilmiau newydd, os ydych chi'n dechrau yn y diwydiant ffilm ac yn chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli, mae gwyliau yn lle gwych i ddysgu sgiliau newydd a gwneud cysylltiadau. Ar hyn o bryd mae tua 50% o'r gwyliau yn cael eu cynnal yn ne-ddwyrain Cymru, gyda'r 50% arall yng ggogledd, dwyrain a gorllewin y wlad. Mae llawer yn cynnig digwyddiadau ar-lein ochr yn ochr â'u rhaglenni personol, gan ein bod yn gwybod y gall cyrraedd yno fod yn her.

I helpu gyda hyn, rydym wedi llunio rhestr lawn a map i'ch helpu chi i weld yn union ble a phryd mae pob gŵyl yn digwydd. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at wyliau sydd ar ddod yn fisol ar ein gwefannau cymdeithasol, rhag ofn bod angen nodyn atgoffa arnoch, yn ogystal â ble gallwch ddod o hyd i'ch sinema, clwb ffilm neu sgrin gymunedol agosaf.

Os ydych chi'n rhedeg gŵyl ffilm ac nad ydych wedi'ch rhestru isod ac yr hoffech gael eich ychwanegu (neu os hoffech gael eich tynnu o'r rhestr hon), cysylltwch â ni. Gall Gwyliau Ffilm yng Nghymru hefyd ddod yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru am ddim a gwneud cais am gyllid datblygu cynulleidfaoedd yn ogystal â chael mynediad at hyfforddiant, rhwydweithio a chyngor.

**A-Y o Wyliau Ffilm Cymru**

- Abertoir International Horror Festival of Wales (Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth) - Tachwedd
- Adventure Food & Film Festival (Amrywiol) - Medi
- Attic Theatre International Film Festival (Sir Gaerfyrddin) - Hydref
- Borderlines Film Festival UK (Ffiniau Cymru - February / Mawrth
- BANFF Cardiff Adventure Film Festival (Caerdydd) - Hydref / Tachwedd
- CELF Caerleon Arts Festival (Casnewydd) - Gorffennaf
- Cardiff Animation Festival (Caerdydd / Ar draws Cymru) - Mai
- Cardiff Mini Film Festival (Caerdydd) - Ionawr
- Gŵyl Ffilm Bae Caerfyrddin (Sir Gaerfyrddin) - Mai
- Celtic Media Festival (Amrywiol) - Mehefin
- Copper Dragon International Film Festival (Abertawe) - Chwefror
- The Edge Festival (Solva, Penfro) - Gorffennaf
- Focus Wales (Wrecsam) - Mai
- Ffilmic (Llanfyllin) - Ionawr
- Green Man Festival (Bannau Brycheiniog) - Awst
- Gwanwyn Festival / Age Cymru (Ar draws Cymru) - Mai
- Gŵyl Wal Goch (Wrecsam) - Mai
- Gwyl Y Ferch Gogledd Cymru (Caernarfon) - Mawrth
- Gŵyl Undod Hijinx (Caerdydd) - Mehefin (bi-annually)
- Into Film Festival (Ar draws Cymru) - Tachwedd
- International Film Festival of Wales (Wrecsam) - Hydref
- Iris Prize LGBTQ+ Film Festival (Caerdydd / Ar draws Cymru) - Hydref
- Italian Film Festival (Caerdydd) - Tachwedd
- Kotatsu Animation Festival (Caerdydd, Aberystwyth a Bae Colwyn) - Hydref
- Lez Diff (Cardiff International Lesbian Film and Arts Festival) (Caerdydd) - Mawrth
- Llynfi Valley Film Festival (Maesteg) - Mawrth
- Sinemaes | Eisteddfod (Amrywiol) - Awst
- Oska Bright Film Festival UK (Amrywiol) - Mawrth
- Phantasmagoria Horror Film Festival (Wrecsam) - Hydref
- Pigeon Talk Comedy (Caerdydd) - Mawrth
- Ruthin International Arts Festival (Ddinbych) - Gorffennaf
- Rhyller Thriller (Rhyl) - Awst
- SeeMôr Film Festival (Ynys Môn) - Hydref
- The Children's International Film Festival of Wales (Tredegar) - Hydref
- The Coastline Film Festival (Bae Colwyn) - Ionawr
- Watch-Africa Film Festival (Caerdydd) - Mai
- Wales One World Film Festival (WOW) (Ar draws Cymru) - Mawrth / Ebrill
- Wicked International Film Festival (Rhyl) - Hydref
- Windrush Caribbean Film Festival (Casnewydd) - Mehefin
- Yr Egin Film and Adventure Festival (Caerfyrddin) - Mawrth

Noder y gall dyddiadau gwyliau newid. Edrychwch ar wefan y gwyliau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:**
Jade Atkinson, Cydlynydd Marchnata Aelodau, ar 02920 311 057 / jade@filmhubwales.org
Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

**Nodiadau i Olygyddion:**

**Am Ganolfan Ffilm Cymru**
Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sy'n dangos ffilmiau – o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 300 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 347 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 589,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith ledled y DU o wyth canolfan a ariennir gan y Loteri Genedlaethol trwy'r Sefydliad Ffilmiau Prydeinig (BFI) sy'n ffurfio'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Rheolir Canolfan Ffilm Cymru gan Chapter. Rydyn ni hefyd yn arwain Gwnaethpwyd yng Nghymru, prosiect sy'n dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig. Rydym hefyd yn falch o fod wedi arwain ar strategaeth Sinema Gynhwysol DU ar ran BFI FAN 2017-23.

Ganolfan Ffilm Cymru: Gwefan, X (Twitter gant), Facebook

Gwnaethpwyd yng Nghymru: Instagram, TikTok, Facebook, Made in Wales podcast, YouTube, Letterboxd.

**Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI**
Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Genedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi ysgrifenwyr, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaoedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:
- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

Gwefan

**Am BFI**
Rydym yn elusen ddiwylliannol, dosbarthydd y Loteri Genedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy:

- Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen gofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Jay Hunt.

Gwefan, Facebook, X (Twitter gant)

**Am Chapter**
Wedi'i sefydlu can artistiaid ym 1971, mae Chapter yn ganolfan ryngwladol ar gyfer celfyddydau a diwylliant rhyngwladol. Mae'n gartref i'r celfyddydau, lle cynhyrchir a chyflwynir gwaith dyfeisgar, apelgar o'r radd flaenaf. Mae eu horiel yn comisiynu ac yn cynhyrchu arddangosfeydd o gelfyddyd gorau'r wlad a'r byd. Mae eu gofodau theatr yn llwyfan i waith arbrofol sy'n procio'r meddwl. Mae eu sinemâu yn cynnig ffilmiau rhyngwladol a heriol ochr yn ochr â nifer o wyliau a digwyddiadau. Mae'r sinemâu yn dod â rhagor o ffilmiau i ragor o bobl mewn rhagor o leoedd drwy Ganolfan Ffilm Cymru.

Ochr yn ochr â'i rhaglen graidd, mae Chapter hefyd yn gartref i 56 o artistiaid a chwmnïau creadigol sy'n gweithio yn eu stiwdios. O animeiddwyr a chwmnïau cynhyrchu ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau, i artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr, yn ogystal â chwmni fframio celf, argraffwyr a stiwdios recordio. Mae'r gymuned greadigol wrth galon holl weithgarwch Chapter.

Daw'r rhaglen a'r gymuned ynghyd yn eu Caffi Bar sydd wedi ennill gwobrau. Gyda lle i hyd at 120 o bobl eistedd, mae'r caffi yn lle gwych i gyfarfod ffrindiau, darganfod lle tawel i weithio, neu i fwynhau diod neu damaid o fwyd blasus, ffres wedi'i baratoi â chynhwysion a brynwyd yn lleol, o fwydlen eang.

Gwefan, Facebook, X (Twitter gant), Instagram